Syniadau A.G.

Tymor yr Haf 2013 *Pris £1.00*

'Sgwn i os oes ffydd ar waith yn eich ardal chi?'

Debbie Humphreys, Ysgol Eifion Wyn Gwynedd a Nia Wyn Jones, Ynys Môn

(Athrawon ymgynghorol addysg grefyddol CYNNAL)

Ffocws y rhifyn hwn o 'Syniadau Addysg Grefyddol' yw i ddatblygu sgiliau dysgwyr mewn ymchwilio gan ddefnyddio'r ardal leol fel cyd-destun. Trwy gynllunio a chynnal ymchwiliad mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddangos cynnydd yn eu sgiliau addysg grefyddol ond hefyd yn eu sgiliau trawsgwricwlaidd: cyfathrebu, rhif, technoleg gwybodaeth a meddwl. Mae canllawiau defnyddiol wedi cyrraedd ysgolion cynradd Cymru.

Darllenwch:

- **Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a 3 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011)**

  Mae tudalennau 16-19 yn amlinellu camau ar gyfer ymchwilio.
- **Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth. (Llywodraeth Cnulliad Cymru, 2010)**

  Mae tudalennau 33-34 yn cynnig awgrymiadau am strategaethau ac offerynau dysgu.
- **Gwefan Belle Wallace: Thinking Actively in a Social Context** (www.tascwheel.com)

Sbardun: Paratowch fap meddwl tebyg i'r un isod, fel man cychwyn i'r ymchwiliad dosbarth. Efallai byddwch am greu murlun dosbarth ac ychwanegu is-ganghenau, geirfa allweddol, lluniau, botymau sain a symbolau i'r map meddwl. Ystyriwch holi cwestiynau megis:



- Oes tystiolaeth bod pobl yn, e.e. *cyd-addoli, byw bywyd crefyddol...*yn yr ardal leol?
- Pa luniau sy'n dod i'ch meddwl wrth feddwl am grefydd yn yr ardal leol?
- Oes angen i ni ychwanegu geiriau i'r map meddwl? Oes angen i ni ychwanegu is-ganghenau?
- A fydd lluniau a/neu symbolau yn helpu pobl eraill i ddeall y map meddwl?
- Pa gwestiynau sy'n dod i'n meddwl wrth geisio cwblhau'r map meddwl?
- Mae rhai o'r farn bod 'map meddwl' yn ein helpu i drefnu syniadau a chynllunio atebion ysgrifenedig. *Beth yw'ch barn chi?*

Defnyddio ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol

Oes tystiolaeth o ffydd ar waith yn eich papurau lleol neu'r papur bro?

- Pwy yw'r bobl sydd wedi arddangos eu ffydd? Beth ydych yn gwybod amdanynt?
- Beth ydy teitl yr erthygl? Ydy'r teitl yn golygu rhywbeth? Oes ystyr arall i'r teitl? e.e. *efallai bod y gair 'Bugeiliaid 'yn y teitl yma yn golygu rhywbeth sy'n ymwneud â ffermio neu stori o'r Beibl?*
- Darllenwch eich erthygl chi eto gan danlinellu y geiriau allweddol a phwerus sydd yn disgrifio beth mae'r credinwyr yn ei wneud?
- Pe byddech yn defnyddio trosiad i ddisgrifio'r bobol dda yma, pa flodyn ydyn hwn? Pam? Pa gân neu eiriau arbennig ydy nhw? Pam?

GORIAD

PAPUR BRO BANGOR A'R FELINHELI

BUGEILIAID Y STRYD

ENBLWYDD HAPUS!

GYNGOR CYMUNED PENTIR

Grŵp o wirfoddolwyr o eglwysi Bangor ydy Bugeiliaid y Stryd. Maent yn mynd allan dros nos i gynnig cymorth i rhywun sydd mewn angen.

Oes tystiolaeth o ffydd ar waith yn yr adeiladau lleol?

Ewch o gwmpas eich ardal leol i chwilio am dystiolaeth o ffydd ar waith. Tynnwch gasgliad o ffotograffau os ydych yn meddwl eich bod wedi gweld cliwiau. Defnyddiwch y casgliad o luniau nôl yn yr ystafell ddosbarth.

- Dosbarthwch y lluniau i setiau, Pam ydych chi wedi eu dosbarthu fel hyn? Beth sy'n cysylltu pob set o luniau?
- Dewiswch un ffotograff. Beth ydych chi'n sylwi ar gyntaf yn y llun? Pam? Rhannwch y llun i chwarteri. Beth welwch chi ym mhob chwarter?
- Ydy'r llun yn dangos bod ffydd yn y gymuned? Sut?
- Oes rhywbeth yn y llun yn trio effeithio ar ffordd o fyw pobl? Beth? Sut?
- Oes rhywbeth yn y llun yn dangos dysgeidiaeth Iesu Grist? Beth? Pam bod y perchnogion wedi dewis, *e.e. 'The Big Rock Cafe' fel enw i'r caffi?*
- Beth fyddai barn Cristion/credinwr o grefydd arall am y llun?
- Beth ydych barn chi am y llun? Pa gwestiwn hoffech chi ofyn am y llun?
- Meddyliwch am deitl addas i'r llun

Cristnogion ardal Porthmadog sy'n gyfrifiol am 'The Big Rock Cafe'.

Oes tystiolaeth o ffydd ar waith mewn gwaith celf yn yr ardal leol?

- Yn eich addoldy lleol chi, nodwch pa symbolau sydd i'w gweld o gwmpas? Tynnwch lun ohonynt. Yn ôl yn y dosbarth ymchwiliwch beth yw eu hystyr.
- A oes stori o'r Beibl neu'r llyfr sanctaidd yn cyd–fynd ag un o'r symbolau yn eich addoldy chi? *e..e efallai bod y symbol o goeden yn y lluniau yma yn gwneud i rhywun feddwl am 'Stori Sacheus '.*
- Wrth gerdded o gwmpas eich addoldy hwyrach y bydd rhyw eiriau arbennig wedi tynnu eich sylw. Cofnodwch nhw. Yn eich geiriau eich hun eglurwch ystyr y geiriau. e.e. 'Coeden Bywyd' ydy'r thema yn y lluniau yma. " Mae'r Eglwys fel coeden iach ac wrth iddi dyfu mae'r canghennau fel....."
- Os nad oes thema arbennig yn yr addoldy, allwch chi feddwl am symbol fyddai'n addas i'w ailadrodd ar rai o gelfi neu waliau'r addoldy, e.e. yr allor, y bedyddfaen, y pulpud, y ffenestri mewn eglwys Gristnogol.

Defnyddiodd Colin Pearce thema 'Coeden Bywyd' ar gelfi Eglwys Llanfaelog, Ynys Môn

Oes tystiolaeth bod ffydd ar waith wrth ymchwilio i ffordd o fyw pobl o'n cwmpas?

Sut mae credinwyr yn dangos bod eu 'ffydd ar waith' yn yr ardal leol?

- Trafodwch. Pa fath o gwestiynau dylid eu holi? Sut ydych yn bwriadu casglu eu hymatebion? Ymchwiliwch. Beth yw barn eich ffrindiau a'ch teulu?
- Ail drefnwch y data fel siart bar. Trefnwch y data o'r mwyaf i'r lleiaf poblogaidd.

S1	a	b
1	Sut mae pobl yn helpu yn yr ardal leol?	Nifer o bobl
2	Rhoi arian at elusen lleol	11
3	Rhoi arian at elusennau cenedlaethol/rhyngwladol	15
4	Rhoi amser i'r teulu	30
5	Rhoi amser i blant neu henoed yr ardal	8
6	Gofalu am y byd naturiol a phethau byw	18
7	Dilyn esiampl Iesu Grist	8

Atebwch gwestiynau tebyg i'r rhain?

- P'run yw'r ffordd mwyaf/lleiaf poblogaidd o...? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- P'run ydych chi'n meddwl yw'r ffordd bwysicaf o .....ddangos bod 'ffydd ar waith'? Defnyddiwch rhaff farn i fynegi'ch barn.
- Pam ydych chi'n meddwl fod mwy o bobl yn....na.....?



- Beth fyddai barn credinwr am y data? Beth yw eich barn chi am y data?
- Beth mae'r data'n ddweud wrthych am bobl yn eich cymuned chi? Oes ffydd ar waith yn eich cymuned chi? Sut wyddoch chi hyn?

Oes tystiolaeth o ffydd ar waith mewn logos a symbolau yn yr ardal leol?

- Beth sy'n gwneud logo'n dda? Pam bod logo'n cael ei ddefnyddio yn hytrach nag ysgrifen?
- Arsylwch y logo hwn a labelwch y symbolau. Meddyliwch, parwch a rhannwch. Beth ydy ystyr y Groes? Golomen? Cymru?
- P'run ydych chi'n meddwl yw'r symbol pwysicaf? Pam? P'run ydych chi'n meddwl yw'r symbol lleiaf pwysig? Pam? Ydych chi'n meddwl fod y symbolau wedi cael eu gosod mewn lle arbennig? Pam?
- Pwy, yn eich barn chi sy'n defnyddio'r logo hwn? Pam?
- Dyma logo **Cymdeithas y Cymod**. Defnyddiwch y wefan er mwyn cywain gwybodaeth am y mudiad. Oedd eich dyfaliad yn gywir?
- Oes symbolau mewn straeon crefyddol?

  e.e. Pa symbol ddefnyddiodd Duw i ddangos....?

Logo ar dei ymwelydd dosbarth.

- Oes logos a symbolau eraill yn yr ardal leol sy'n dangos ffydd ar waith?
- Lluniwch eich symbol eich hun ar gyfer ……

Oes tystiolaeth o ffydd ar waith yn yr ardal leol?

cerrig beddi **sioe gerdd** **cyngerdd** **arysgrifau**

cerfluniau **etholiad** **ffenest liw** **siop** **gŵyl**

llwybr cyhoeddus **priodas** **gwisg** **gorymdaith**

ffynnon **bwyd** **sŵn/sain** **ymwelwyr** **addoldy**

ADNODDAU MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o *'Syniadau AG'* ar gael.

Cyhoeddiadau Cynradd - *Pobl Arbennig ; Adegau Arbennig; Iesu; Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Mannau Arbennig*

Cyfres Ymchwilio i Thema: *i Codau Byw; i Ddathliadau; i Gredoau* ac *i Gwestiynau Dyrys.*

SAESNEG *Amazing Lives* (ar gael yn Gymraeg – *Am ddawn* –Huw J Hughes)

Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues;*

Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.

Cyffredinol*: More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)

Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr

Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX
(Tel/Ffacs: 01654 - 761 697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk

© MAGC 2013